# Rhesymau i ychwanegu eich cefnogaeth i Atal y Dreth Fferm Deuluol

1. Nid yw mwyafrif y ffermydd yn ennill digon o arian i dalu bil treth etifeddiant posibl heb werthu peth o'u tir neu'r busnes, a all yn ei dro wneud y busnes yn anhyfyw.

2. Mae busnesau fferm yn cael eu gorfodi i ddargyfeirio elw i baratoi ar gyfer biliau treth IHT sylweddol yn y dyfodol. Bydd hyn yn arafu buddsoddiad yng ngwytnwch hirdymor y busnes ynghyd a buddsoddiad mewn gwelliannau amgylcheddol.

3. Does dim opsiynau i ffermwyr oedrannus. Cyn I'r cynigion yma gael eu cyhoeddi, y cyngor treth mwyaf effeithiol oedd i ffermwyr ddal eu fferm hyd farwolaeth. Hyd yn oed gyda mesurau lliniaru megis y rheol rhoddion saith mlynedd, efallai na fydd rhai ffermwyr yn byw'n ddigon hir i roi trefn ar eu materion mewn amser.

4. Mae gan y Trysorlys fwy i'w ennill o fusnesau sy'n llewyrchus ac yn talu mathau eraill o dreth a darparu swyddi (e.e. treth incwm busnes a thaliadau yswiriant gwladol cyflogwr ) yn hytrach na bil IHT unwaith ac am byth gan fusnes nad yw bellach yn hyfyw.

5. Bydd yn niweidio diogelwch bwyd y DU. Gyda llai o Ffermwyr Cymreig a Prydeinig yn tyfu bwyd, bydd y DU yn dod yn or-ddibynnol ar fewnforion.